## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A458 (BROAD STREET A HIGH STREET, Y TRALLWNG, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) (RHIF 3) 2025

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn cynnal digwyddiad Ffair Aeaf y Trallwng ar gefnffordd yr A458, neu gerllaw iddi, yn y Trallwng, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y digwyddiad, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A458 o'r enw Broad Street a High Street yn y Trallwng, Powys sy'n ymestyn o'i chyffordd â The Cross hyd at ben deheuol yr ynys hollti wrth ei chyffordd â Jehu Road.

Sicrheir mynediad i eiddo ar New Street a Park Lane a chaiff y mynediad hwnnw ei reoli gan drefnwyr y digwyddiad.

Y llwybr arall ar gyfer pob cerbyd arall yw mynd ar y B4381 Severn Street a Severn Road tua'r de i Gylchfan Old Station, Smithfield Road tua'r gogledd, Mill Lane tua'r gorllewin i gyffordd yr A458 yn Church Street, y B4381 Brook Street tua'r gorllewin i Gylchfan Raven a'r A458 Raven Street a Mount Street tua'r dwyrain i gyffordd Jehu Road.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 29 Tachwedd 2025 a bydd yn para am 1 diwrnod ar y mwyaf. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol o 07:00 hyd 19:00 o'r gloch ar y dyddiad hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A458 TRUNK ROAD (BROAD STREET & HIGH STREET, WELSHPOOL, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) (NO. 3) ORDER 2025

The Welsh Ministers have made an Order under section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to hold the Welshpool Winter Fair event on or near the A458 trunk road at Welshpool, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the event, from proceeding on the length of the A458 trunk road known as Broad Street and High Street at Welshpool, Powys that extends from its junction with The Cross to the southern tip of the splitter island at its junction with Jehu Road.

Access will be maintained to properties on New Street and Park Lane and such access will be managed by the event organisers.

The alternative route for all other vehicles is via the southbound B4381 Severn Street and Severn Road to the Old Station Roundabout, northbound Smithfield Road, westbound Mill Lane to the A458 junction at Church Street, westbound B4381 Brook Street to Raven Roundabout and eastbound A458 Raven Street and Mount Street to the Jehu Road junction.

The Order comes into force on 29 November 2025 and has a maximum duration of 1 day. The temporary prohibition is expected to operate from 07:00 – 19:00 hours on that date.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government